

Clwyf y Cyfresi 3

Brynley F. Roberts

TRAETHODAU'R DEYRNAS

Hughes a'i Fab, Wrecsam

Esbonnir y cefndir ar glawr y pamffledi: Cyfres o draethodau o dan nawdd *Urdd y Deyrnas*, sef brawdoliaeth o bobl, yn wŷr ac yn wragedd, â'u bryd ar ddirnad y ffydd Gristnogol, ar ddarganfod y ffordd Gristnogol, ac ar ymroddi o ddirif i fyw y bywyd Cristnogol. Hyderir y teifl y Traethodau ryw gymaint o oleuni ar berthynas Cristnogaeth â'r materion dan sylw.

Cafwyd hefyd gyfres Saesneg yn ymgais i bontio 'dau ddiwylliant' Cymru ac yn baratoad ar gyfres cynhadledd i'w chynnal yn Aberystwyth Ionor 1927 dan nawdd *Urdd y Deyrnas* a Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr i drafod 'some of the most pressing problems confronting us in Wales today'. Lledu'r rhwyg a wnaeth y gynhadledd, a barnu wrth sylwadau yn y traethodau Saesneg wedi'r achlysur, ac ymgais i greu trafodaeth bellach oedd y gyfres hon.

Golygwyr: Herbert Morgan, M.A., J. Morgan Jones, M.A., Owen Griffith, M.A. (Ysgrifennydd).

Y Gyfres Gymraeg: pris 3c., rhifyn 11 yn ddwbl, pris 6c. (cloriau melyn).

1. D Miall Edwards a M E Davies, *Cyflwr crefydd yng Nghymru*, 1924.
2. Gwenan Jones, *Addysg yng Nghymru*, 1924.
3. Herbert Morgan, *Diwydiant yng Nghymru*, 1924.
4. J Morgan Jones a G A Edwards, *Diwinyddiaeth yng Nghymru*, 1924.
5. R Alun Roberts, *Bywyd gwledig Cymru*, 1924.
6. David Thomas, *Y Deyrnas a phroblemau cymdeithasol*, 1924.
7. Thomas Rees, *Gwleidyddiaeth yng Nghymru*, 1924.
8. Ifor Williams, *Llenyddiaeth Gymraeg fore*, 1924.
9. Dorothy Roberts, *Oriau hamdden ac adloniant*, 1924.
10. E Morgan Humphreys, *Cymru a'r wasg*, 1924.
11. Gwenan Jones, *Cymru a'i chymdogion*, 1925.

Y Gyfres Saesneg: pris 3c. 6c. (cloriau glas).

1. Saunders Lewis, *An introduction to contemporary Welsh literature*, 1926.
2. H J Fleure, *Wales and her people*, 1926.
3. D Miall Edwards, *Religion in Wales*, 1926.
4. J Morgan Rees, *An introduction to the industrial revolution in south Wales*, 1927.
5. T Gwynn Jones, *The culture and tradition of Wales*, 1927.
6. R H Morris, *Welsh Politics*, 1927.

Ail Gyfres Gymraeg: (unffurf â'r gyfres gyntaf).

1. D. Llywelyn Williams, *Cyflwr Iechyd yng Nghymru*, 1930.
2. Thomas Lewis, *Yr Hen Destament a beirniadaeth ddiweddar*, 1930.
3. Ifor Williams, *Llenyddiaeth Gymraeg a chrefydd*, 1930.

Rhestrwyd nifer o deitlau eraill,

1. Thomas Lewis, *Beirniadaeth Feiblaidd* (sef rhif 2 uchod, mae'n debyg).
2. Ifor Williams, *Llenyddiaeth Cymru* (sef rhif 3 uchod, debyg).
3. J Morgan Jones, *Rhyddid Crefyddol*.
4. Llewelyn Williams, *Iechyd y Cyhoedd* (sef rhif 1 uchod).
5. Jenkin James, *Moderniaeth*.
6. T Eurig Davies, *Crist a Diwylliant*.
7. J Lloyd Williams, *Cerddoriaeth Cymru*.
8. J Morgan Jones, *Addysg Grefyddol*.
9. Sydney Herbert, *Cristnogaeth a Rhyfel*.
10. Herbert Morgan, *Yr Eglwys a'r Deyrnas*.
11. Wyre Lewis, *Hapchwarau*.
12. George M Ll Davies, *Cymdeithasau Crefyddol*.
13. J Roger Jones, *Athrawiaeth y Cymod*.

Hyd y gwn, ni chyhoeddwyd y mwyafrif o'r rhain.

CYFRES PAMFFLEDI LLENYDDOL CYFADRAN ADDYSG ABERYSTWYTH Llyfrau'r Dryw, Llandybie

1. R Gerallt Jones, *Daniel Owen*, 1962.
2. W Beynon Davies, *T Gwynn Jones*, 1962.
3. R Gerallt Jones, *O M Edwards*, 1962.
4. Islwyn Ffowc Elis, *Thema yn y nofel Gymraeg*, [1963].
5. Garfield H Hughes, *Theophilus Evans a 'Drych y Prif Oesoedd'*, 1963.
6. Bobi Jones, *Guto'r Glyn a'i gyfnod*, 1963.
7. D Tecwyn Lloyd, *R Williams Parry*, 1964.
8. Glyn Ifans, *yr Ysgrif Gymraeg*, 1964.
9. Gerald Morgan, *Y Tair Rhamant*, 1965.
10. R Gerallt Jones, *'Siwan'*, 1966.
11. Dafydd Jenkins, *Y stori fer Gymraeg*, 1966.
12. Iowerth C Peate, *W J Gruffydd*, 1966.
13. Derec Llywd Morgan, *Y soned Gymraeg*, 1967.
14. Bobi Jones, *Angau Ellis Wynne*, 1968.

Rhwymwyd y pedwar teitl cyntaf yn gyfrol, *Pamffledi Llenyddol* (gol. Jac L Williams, Llyfrau'r Dryw, 1963). Yn y rhagair dywedir mai'r bwriad oedd cyhoeddi cyfres o ugain o bamffledi dros gyfnod o bum mlynedd.

CYFRES POBUN

Gwasg y Brython, Lerpwl

Eglurir diben y gyfres mewn cyflwyniad sy'n ymddangos ymhob teitl yn y gyfres gychwynnol:

PAHAM A PHA BETH?

Y mae llawer o holi a phryderu beth a ddaw o Gymru ym merw a dadrithio y dyfodol agos. Er cynorthwyo gwerin Cymru i fanteisio ar y cyfle tyngedol a ddaw iddi ar ddiwedd y rhyfel, penderfynwyd cyhoeddi cyfres o lyfrau a fydd yn ymdrin â'r problemau mawr a wyneba Gymru y pryd hynny. Sicrheir gwŷr hydysg ym mhob un o'r pynciau y bwriedir eu trin.

Ceir crynodeb byr hanesyddol o'r pwnc, eglurir y safle fel y mae heddiw, y datblygiad naturiol y gellir ei ddisgwyl yn y dyfodol, ac os bydd galw am hynny, amlinellid o'r gwelliannau y geilw'r safle amdanynt.

Yn rhif XV esbonnir fod y cynllun gwreiddiol yn newid:

Erbyn hyn dihybyddwyd y testunau y trefnwyd ar ddechrau'r Gyfres hon i sgrifennu arnynt, ac eithrio dau, a disgwylir y cyfrolau hynny yn eu tro. Yn wyneb y gwerthiant a fu ar y Gyfres, penderfynwyd ei pharhau, ond drwy newid tipyn ar y cynllun. Yn lle gofyn i awduron cyfarwydd ysgrifennu ar destunau a benodwyd iddynt, gofynnir iddynt ysgrifennu ar destunau o'u dewisiad eu hunain a fydd o ddiddordeb cyffredinol.

Bydd rhai o'r cyfrolau'n waith newydd, a rhai'n gasgliad o ysgrifau o werth parhaol sydd ar hyn o bryd ar chwâl mewn gwahanol gyfchgronau.

Rhestrir nifer o 'addewidion'; cyflawnwyd cyfran ohonynt. O'r gyfres a gynlluniwyd yn wreiddiol, ni chafwyd *Amaethyddiaeth* (Moses Griffith), *Y Radio* (Philip Phillips), *Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Ifor Williams).

Cyfres clawr caled, tua 68 o dudalennau, 2/yr un, XIV-XVII, 2/6; XIX yn gyfrol dwbl 4/-.

Golygydd: E Tegla Davies.

1. A H Williams, *Cymru ddoe*, Tachwedd 1944, 1946.
2. W Moses Williams, *Addysg*, Rhagfyr 1944.
3. E Morgan Humphreys, *Y wasg Gymraeg*, Ionawr 1945.
4. James Griffiths, *Glo*, Mawrth 1945.
5. Ifor Williams, *Enwau lleoedd*, Mai 1945, Medi 1945.
6. Edgar L Chappell, cyf. Meuryn, *Llywodraeth leol*, Mehefin 1945.
7. Idris Lewis, *Cerddoriaeth yng Nghymru*, Medi 1945.
8. Tom Parry, *Llenyddiaeth Gymraeg 1900-1945*, Rhagfyr 1945, Rhagfyr 1946.
9. T Trefor Jones, *Iechyd yng Nghymru*, Ionawr 1946.
10. D J Davies, *Diwydiant a masnach*, Ebrill 1946.
11. Llywelyn ap Gwynn, *Celfyddyd a chreffit yng Nghymru*, Mai 1946.
12. J H Griffith, *Crefydd yng Nghymru*, Hydref 1946.
13. Elsbeth Evans, *Y ddrama yng Nghymru*, Chwefror 1947.
14. Oswald R Davies, *Crefydd a'r gymdeithas newydd yng Nghymru*, Mai 1947.
15. R Alun Roberts, *Hafodydd brithion*, Tachwedd 1947.
16. T H Parry-Williams, *Y bardd yn ei weithdy*, Ebrill 1948.
17. D Gwenallt Jones, *Bywyd a gwaith Islwyn*, Rhagfyr 1948.
18. J Gwyn Griffiths, *Y patrwm cydroladol*, Ebrill 1949.
19. Bleddyn J Roberts, *Patrymau llenyddol y Beibl*, Ebrill 1950.

Gwefan Gwymon y Môr

Tybed a hoffech ddwyn sylw eich darllenwyr at dudalen Gwymon y Môr ar www.gwymon.co.uk

Nid yw'r dudalen wedi ei chwblhau hyd yn hyn, ond mae'r gwaith yn mynd rhagddo ac efallai y byddai hysbyseb bychan answyddogol iddo yn *Y Casglwr nesaf* ac ar eich dalen Dolennau/Cysylltiadau yn fuddiol i ni. Fy e-pistol yw eluned@gwymon.co.uk

ELUNED MORGAN